Beirniadaeth Cystadleuaeth 367: Cylchlythyr Gwaith Grŵp Bl.7, 8 a 9

Beirniad: Non Tudur

1 – 'Bisgedi' Bryn Tawe
2 – Ysgol Bro Teifi

Dau ymgeisydd oedd yn y gystadleuaeth yma eleni. Mae hynny'n siomedig braidd, o gofio ei bod hi'n agored i unrhyw glwb, cymdeithas neu ysgol, a'i bod yn bosib ei gyflwyno 'ar unrhyw gyfrwng'. Beth am i ragor o ysgolion a chlybiau fentro arni yn 2027? Hyfryd fyddai clywed am eich gweithgarwch.

**Ymgais 1**

Waw! Dyna oedd f'ymateb ar ôl agor cylchlythyr 'Croeso Bl.6! Ysgol Bryn Tawe' (dan y ffugenw Bisgedi) - cyhoeddiad taclus 10 tudalen o hyd, wedi'i gyflwyno drwy gyfrwng PDF. Y gair 'Croeso' yn gwenu arnoch ar gefndir melyn yn y pennawd yn dangos agwedd gadarnhaol, hwyliog.

A dyna sydd ei angen ar ddechrau cylchlythyr i groesawu Blwyddyn 6 i'r ysgol uwchradd. Mae ynddo negeseuon cadarnhaol am yr ysgol ac addysg Gymraeg, a chynghorion gwerthfawr. Mae'n fywiog o ran diwyg a delweddau, ac yn llawn gwreiddioldeb o ran y modd mae'r wybodaeth yn cael ei chyflwyno.

Un syniad difyr ar y dudalen gyntaf yw ymson swyddfa'r ysgol - ie, swyddfa yn siarad yn dweud pwy sy'n ymweld â hi.

(TIP! Mae'r swyddfa yn dweud ei bod hi'n casáu pan fydd rhywun yn dod i gael cymorth cyntaf ar ôl 'cael loes ac yn gorfod defnyddio'r gadair olwyn!' Cofiwch i'r rheiny sydd ag anabledd mae cadeiriau olwyn yn gyfarpar hanfodol i'w rhyddid, yn eu galluogi i symud o gwmpas yn annibynnol. Gwell peidio â chyfeirio at gadair olwyn mewn ffordd negyddol.)

Difyr hefyd yw'r colofnau fel Cyfweliad gyda'r Pennaeth, Ffaith Ddifyr, Blog taith i Lanmadog, ac ati. Hoffaf y darnau byrrach, llawn delweddau, fel Posteri'r clybiau, a 'Beth i'w roi yn dy fag ysgol?' Hyfryd yw'r gwaith celf gwreiddiol fel 'Gwisg Ysgol Bryn Tawe'.

Mae'r colofnau hirach - e.e. Cynghorion i ddechrau ym Mlwyddyn 7, Cyfarwyddiadau, Araith, Portreadau o'r Athrawon - wedi'u sgrifennu yn rhagorol, yn fwriadol ac i'r pwynt. Mae'n gylchlythyr ardderchog, yn gymhelliant arbennig i rywun sydd ar fin dechrau mewn ysgol Gymraeg. Mae llawer iawn o'r talpiau hirach yma mewn arddull ac iaith aeddfed iawn, o ran ymadroddi a chywirdeb.

Rhaid cyfadde' fy mod i'n rhyfeddu os mai disgyblion bl.7, 8 a 9 sy'n gyfrifol am y testun i gyd. Efallai bod yr awduron iau yma wedi efelychu neu fenthyca o daflenni cynghorion blaenorol gan rywun mewn awdurdod neu athro (e.e. '*Nid yw pob pwnc yn plesio pawb, ond gwna dy orau glas ym mhob un. Gwna berthynas dda gyda dy athrawon*.'). Mae dawn sgrifennu uchel ar waith yn y cylchlythyr.

Mae hwn yn gylchlythyr ardderchog y byddai'n werth ei addasu yn demplad, er mwyn i ysgolion Cymraeg eraill gael ei efelychu.

**Ymgais 2**

Symlach, byrrach a plaenach o lawer yw cylchlythyr Word criw Ysgol Dyffryn Teifi - 'Dolen CFfI Llanllwni'. Dyma gylchlythyr bach digon difyr am weithgarwch diweddar y Clwb Ffermwyr Ifanc, yn codi arian at elusennau, yn cystadlu ar siarad cyhoeddus, yn cynnal nosweithiau adloniant. Fe godon nhw bron i £8,500 i uned Gofal Arbennig Babanod Ysbyty Glangwili 'ar ddiwrnod y sioe' (i leygwyr, byddai'n dda gwybod pa sioe sy' o dan sylw - a pha fath o weithgaredd oedd hi).

Mae yna bytiau ar lwyddiannau'r clwb ar Ddiwrnod Siarad Cyhoeddus Cymraeg y Sir ac yn cynnal Hanner Awr o Adloniant. Mae'n cloi â rhestr o ddigwyddiadau i ddod.

O ran diwyg, mae'r darnau ysgrifenedig a'r penawdau mewn coch a gwyrdd fel lliwiau logo'r Clwb. Syniad syml a lled effeithiol. Mae'r Gymraeg yn raenus ac yn rhwydd i'w dilyn. Da fyddai cael rhagor o amrywiaeth o ran ffurf a fformat - beth am ymson fer, portread, darn holi ac ateb, neu ddyddiadur gan aelod? Hoffwn fod wedi gweld ambell i ddarn personol, yn enwedig rhywbeth yn nhafodiaith un o bobol ifanc Llanllwni.

Mae natur hael a diwyd y clwb yma, a'i chwmnïaeth hwyliog, i'w deimlo jest o ddarllen y cylchlythyr byr a gweld y ffotograffau llawen. Mae'r ffotograffau hynny'n gampus, ond! fe ddylech fod wedi rhoi capsiynau oddi tanyn nhw.

TIP! Cofiwch mai un llythyren yw 'ff' yn y Gymraeg. Felly **CFfI** yw'r byrfodd ar enw priod fel 'Clwb Ffermwyr Ifanc', nid **Cffi**. Mae rhaglenni fel Word yn *beryg bywyd* ac yn gallu awto-gywiro. Darllenwch nôl dros eich cylchlythyr â llygad barcud. **CFfI** ddylai fod yn y pennawd, nid **CFFI**.

Oherwydd ei fod yn gylchlythyr braidd yn or-syml o ran cynnwys a fformat, rhoddaf griw Llanllwni o Ysgol Dyffryn Teifi yn ail, a dyfarnu'r wobr gyntaf i Ysgol Bryn Tawe.